Tasg 1

# Mis y gwyliau

## Ble? Pryd? Beth?

**Gwaith grŵp**

1. Edrychwch ar y sleidiau unwaith eto.
Yna, yn eich tro, disgrifiwch un o'r sleidiau i'r grŵp. Ceisiwch gynnwys pob manylyn yn eich disgrifiad.

2. Trafodwch a dyfalwch:

- beth sy'n digwydd
- ble mae hyn yn digwydd – chwiliwch am gliwiau yn y cefndir.

Rhowch resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

3. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

4. Ewch i'r adran **Atebion** i weld ydych chi'n gywir.

**Gwaith unigol**

5. Ar ôl edrych yn yr adran **Atebion**, ymchwiliwch i'r ŵyl a llenwch yr adran **Gwybodaeth** ar y dudalen nesaf.

6. Defnyddiwch y wybodaeth i gynhyrchu taflen am yr ŵyl. Eich nod yw ceisio denu ymwelwyr o Gymru i'r ŵyl.

Ar un ochr y dudalen, rhaid i chi:

- roi manylion am yr ŵyl
- ceisio perswadio pobl i ddod i'r ŵyl
- cynnwys lluniau o'r ŵyl.

Ar ochr arall y dudalen, rhaid i chi:

- gynnwys rhai geiriau ac ymadroddion Sbaeneg, e.e.
    - helo
    - bore da
    - prynhawn da
    - noswaith dda
    - hwyl fawr
    - os gwelwch yn dda
    - diolch
    - rhifau 1-10
    - ga i baned o goffi os gwelwch yn dda?
- cynnwys 5 ffaith ddiddorol am Sbaen.

**Gwybodaeth**

Enw'r ŵyl: ..........................................................................................

Pryd: ..........................................................................................

Ble: ..........................................................................................

Beth sy'n digwydd:

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................